**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-532
Ein cyf/Our ref: MD/03323/14

William Powell ACCadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Stephen.george@wales.gov.uk

15 Hydref 2014

Annwyl William.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Medi ynghylch y Ddeiseb P-04-532 am wasanaethau niwro-gyhyrol arbenigol.

Efallai bod y Pwyllgor yn ymwybodol ein bod wedi cyhoeddi Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol ar 8 Mai, yn amlinellu ein disgwyliadau ar gyfer gofal pobl â chyflyrau niwrolegol gan gynnwys y rheini sydd â chlefyd niwro-gyhyrol.

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cyflyrau Niwrolegol yn darparu fframwaith gweithredu gan fyrddau iechyd a'u partneriaid. Mae'n amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y boblogaeth, mynd i'r afael ag amrywiadau o ran mynediad at wasanaethau a lleihau anghydraddoldebau ar draws 7 thema:

- Codi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrolegol
- Diagnosis cyflym o gyflyrau niwrolegol
- Gofal cyflym ac effeithiol
- Byw â chyflwr niwrolegol
- Plant a phobl Ifanc
- Gwella gwybodaeth
- Targedu ymchwil

Bydd Byrddau Iechyd bellach yn datblygu ac yn gweithredu eu cynlluniau eu hunain i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig i gleifion. Mae angen i ofal arbenigol gael cysylltiadau da â gwasanaethau lleol, gan ddarparu profiad a chanlyniadau gwell i gleifion. Yn arbennig, mae'n hanfodol bod y GIG a'i bartneriaid yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd ac amrywiadau o ran mynediad at wasanaethau ledled Cymru. Caiff y materion a nodwyd gan yr Ymgyrch Nychdod Cyhyrol eu hystyried fel rhan o'r broses o weithredu'r Cynllun.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mewn perthynas â Chadeirydd newydd Rhwydwaith Niwro-gyhyrol Cymru, mater i'r GIG yw hwn, ond rwy'n deall bod trafodaethau'n mynd rhagddynt i benodi Cadeirydd newydd.

Yn gywir Mark

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services